



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Llywodraeth Cymru,
Cangen Dŵr,
Is-adran Ynni, Dŵr a Llifogydd,
Trydydd Llawr, Craidd y De,
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd
CF10 3NQ

Annwyl Syr/Fadam,

Canllawiau ar Gysylltu Eiddo i Garthffosydd Cyhoeddus

Rydym yn ddiolchgar am y cyfle i wneud sylwadau ar y Ddogfen Ymgynghori yn ymwneud â 'Canllawiau Statudol ar ddyletswydd ymgwymerwyr carthffosiaeth i gysylltu eiddo â'r system garthffosiaeth gyhoeddus o dan Adran 101A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.'

O ran cynllun y ddogfen ymgynghori, byddai wedi bod yn haws rhoi ymatebion clir a chyfeirio at rannau penodol o'r ddogfen pe bai'r paragraffau wedi'u rhifo. Gellid ystyried hyn ar gyfer fersiwn derfynol y Canllawiau.

Ar ôl bod â rhan sylweddol yn y gwaith o ddrafftio'r canllawiau yn 2012, yn enw Asiantaeth yr Amgylchedd, rydym yn falch bod rhai o'r sylwadau a wnaed bryd hynny wedi cael eu cynnwys. Yn benodol, rydym yn credu bod y canllawiau newydd yn gwella ar hynny a gyhoeddwyd yn flaenorol am eu bod yn gliriach o ran y broses adran 101A i bob parti.

Mae'r Canllawiau'n darparu amserlenni mwy realistig ar gyfer cyflawni cynlluniau adran 101A, a thrwy hynny'n rheoli disgwyliadau ymgeiswyr ac yn rhoi dyddiadau targed ar gyfer cyflawni gan ymgwymerwyr a rheoleiddwyr.

Byddai'n fuddiol annog ymgwymerwyr carthffosiaeth i ddarparu gwybodaeth ynghylch yr opsiynau o dan adran 101A ar eu gwefannau a darparu dolenni i'r ffurflenni cais angenrheidiol.

Rydym wedi nodi sylwadau pellach isod ar adrannau o'r canllawiau drafft a allai elwa o'u hadolygu ymhellach.

1.0 Perthnasedd Daearyddol y Canllawiau

Mae angen i'r Canllawiau nodi'n glir eu bod yn berthnasol i bob cwmni dŵr sy'n gweithredu o fewn ffiniau Cymru (e.e. DCWW a STW) ac y disgwylir i'r ddau gwmni gydymffurfio â nhw. Gall hyn arwain at rai anawsterau ar gyfer Ofwat a'r cwmnïau dŵr os yw'r canllawiau'n dechrau cael eu datblygu'n wahanol gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru a Defra yn Lloegr.

2.0 Cyfrifo Costau a Buddion

Mae ein pryderon sylweddol ynghylch costau a buddion cymharol a gynhyrchir gan y cwmni dŵr mewn perthynas â'r opsiynau cyhoeddus a phreifat yn parhau. Er bod 5.3 - Meini Prawf Economaidd yn cyfeirio at gymesuredd y ddau opsiwn, gallai fod yn ddefnyddiol rhoi rhestr fwy cynhwysfawr o gostau y dylid eu hystyried yn achos yr opsiwn preifat a'r opsiwn cyhoeddus. Er enghraifft:

- Ffioedd Cyfreithiol
- Ffioedd rheoli prosiect
- Trefniadau/ffioedd iawndal tir
- Ffioedd ail-leinio carthffosydd
- Costau asiant tir
- Ffioedd dylunio a chontractwyr

Gan amlaf dim ond 40% o gyfanswm y gost yw'r costau uniongyrchol a ddyfynnir yng ngwerthusiad cynllun cwmni dŵr. Gall y gweddill gynnwys argostau yn erbyn y penawdau canlynol:

- Costau penodol ar gyfer y safle
- Rheoli adeiladu
- Risg contractwyr
- Dylunio
- Gorbenion ac elw contractwyr
- Argost cwmni dŵr
- Gweithgareddau y gellir ailgodi tâl amdanynt mewn cwmni dŵr.

Lle mae'r opsiynau cyhoeddus yn cynnwys ffactorau o'r fath, yna byddai'n ddefnyddiol pe bai'r canllawiau annog edrych ar agweddau tebyg o'r opsiynau preifat ac yn gofyn am esboniad lle nad yw'r rhain yn cael eu hadlewyrchu.

Mae modelau Gwerth Presennol Net (NPV) yn cynnwys ffactor ar gyfer y gost o fenthyca. Yn aml, mae'r un ffactor yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr opsiynau preifat a chyhoeddus ac eto efallai y bydd y gost o fenthyca sydd ar gael i gwmni dŵr yn sylweddol is na'r hyn sydd ar gael i unigolyn. Yn ogystal â hepgor argostau cymharol, gall yr agwedd hon arwain at danbrisió'r opsiwn preifat yn sylweddol.

3.0 Safleoedd Carafanau

Un maes sy'n peri gofid nad yw wedi cael sylw fodd bynnag, yw eithrio carafanau o'r diffiniad o 'adeiladau' a/neu 'safleoedd'. Mewn nifer o leoliadau, mae presenoldeb parciau carafanau sefydlog mawr yn achos pryder ac eto nid yw safleoedd o'r fath yn gymwys i'w cynnwys yn asesiadau adran 101A cwmni dŵr fel arfer.

Efallai y gallai'r canllawiau gael eu hehangu i roi arweiniad ar ystyried carthion domestig sy'n deillio o 'safleoedd' megis parc carafanau o fewn dewisiadau carthffosiaeth amgen ar gyfer ardal dan adran 101A yn hytrach na chanolbwyntio ar ddehongliad culach o 'adeilad'. Gallai hyn hefyd fod yn ffordd o ymdrin ag anawsterau dehongli a all godi pan fydd bloc toiledau neu floc cyfleusterau ar safle carafanau yn gyfystyr ag 'adeilad' at ddibenion adran 101A, ond efallai bod y safle ei hun yn cynnwys adeileddau megis pebyll neu garafanau teithiol sy'n llai sylweddol ac yn llai parhaol na charafanau statig.

Er enghraifft, os yw'n amlwg y bydd safle maes carafanau sydd â'r caniatadau cynllunio angenrheidiol yn cynhyrchu carthion domestig o'i weithgareddau arferol ar sail tymor hir, yna dylai'r 'safle' gael ei ystyried o dan adran 101A. Byddai hyn yn fwy dymunol na gorfod ymdrin â semanteg yr hyn sydd neu nad yw'n adeilad, ond byddai'n dal i adlewyrchu natur barhaol unrhyw seilwaith carthffosiaeth gyhoeddus a allai gael ei osod o ganlyniad i ddyletswydd sy'n codi o dan adran 101A.

Efallai y byddai'n werth nodi na allai maes carafanau confensiynol unigol arwain at ddyletswydd o dan adran 101A, hyd yn oed gyda'r fath newid, gan y byddai pob maes carafanau yn parhau'n 'safle' unigol.

4.0 Draeniau Ochrol

Mae gennym bryderon ynglŷn â'r anghysondeb yn y modd y rhoddir cymelliadau i ddarparu gwsmeriaid cwmnïau carthffosiaeth i'w hannog i gysylltu i garthffos newydd. Mae rhai cwmnïau dŵr wedi cynnig cyfrannu at gost carthffosydd ochrol tra nad yw Dŵr Cymru wedi gwneud hynny. Gallai hyn arwain at driniaeth anghyfartal mewn cymunedau cyfagos yng Nghymru.

Mae adran 101A (2) (b) yn datgan, er mwyn bod yn gymwys i gael carthffos o dan adran 101A rhaid i'r adeilad perthnasol beidio â bod wedi'i gysylltu ar hyn o bryd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i'r garthffos gyhoeddus. Mae paragraff 4.1(j) y Canllawiau cyfredol yn datgan:

"Dylai'r ffactorau na fydd yn berthnasol i asesiad economaidd gynnwys:

incwm a gallu'r perchennog neu'r deiliad i gyflawni ei gyfrifoldeb i adeiladu a thalu am ddraen i wneud cysylltiad o'i eiddo i'r garthffos gyhoeddus arfaethedig. Fodd bynnag, bydd perchnogion neu ddeiliaid sy'n gwrthod cysylltu â charthffos gyhoeddus ar sail fforddiadwyedd yn parhau'n gyfrifol am ddarparu draenio boddhaol, gan gynnwys cysylltiadau i garthffos gyhoeddus o fewn 30 metr (100 troedfedd) i'r adeilad, sy'n ofyniad ymhlith eraill y gall awdurdod lleol ei osod" (yn deillio o adrannau 21 a 59, Deddf Adeiladu 1984)

Ymddengys bod sawl ymgwymerwr carthffosiaeth wedi cymryd bod hyn yn golygu nad oes dyletswydd arnynt i ddarparu carthffos gyhoeddus os yw'r safle o fewn 30m i garthffos bresennol, neu pan fyddant yn darparu carthffos, dim ond o fewn 30m i bob 'safle dyletswydd' y mae angen iddynt wneud hynny.

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn cyfeirio at isafswm y pellter o garthffos er mwyn osgoi cais o dan adran 101A. Mae'n ymddangos nad oes unrhyw sail statudol i wrthod y cais heb ymgymryd ag asesiad llawn ar gyfer eiddo o fewn 30m i garthffos.

Gall cyfyngu darparu carthffos i bellter o hyd at 30m o ffin pob eiddo gynyddu'r risg y bydd cyfraddau cysylltu yn isel oherwydd hyd y garthffos newydd y bydd yn rhaid i ddeiliaid tai dalu amdani er mwyn cysylltu. I rai, gall hyn fod yn gymharol ddrud i'w hadeiladu gan y bydd ar briffyrdd cyhoeddus.

Byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r canllawiau diwygiedig yn cyfeirio at garthffosydd cyhoeddus gan ystyried ymarferoldeb cysylltu â'r ddyletswydd ddeddfwriaethol i ystyried ceisiadau lle mae eiddo o fewn 30m i garthffos bresennol.

5.0 Anheddau nad oes dyletswydd i ddarparu carthffos gyhoeddus iddynt

Mae Rhan b o Atodiad 2 yn cyfeirio at 'unrhyw eiddo arall yn yr ardal (nad ydynt yn debygol o arwain at broblem yn ymwneud â'r amgylchedd neu amwynder yn y dyfodol) y gellid eu gwasanaethu.' Gallai hyn gynyddu lefel cost darparu'r garthffos gyhoeddus ond nid yw'r canllawiau'n awgrymu sut y gellid adlewyrchu hyn yn gymesur yng nghyfanswm y gost breifat, er enghraifft, gellid cynnwys y gost o gynnal a chadw a gwagio systemau dros y cyfnod NVP i'r trigolion hynny sy'n mynegi bwriad i gysylltu i garthffos gyhoeddus.

6.0 Cysondeb safonau dylunio a chynnwys dŵr wyneb.

Mae 7^{fed} rhifyn "Sewers for Adoption" y Ganolfan Ymchwil Dŵr (WRc) yn datgan na ddylai isafswm graddfa llif o anheddau fod yn llai na 4000l y dydd i bob annedd lle y rhagdybir isafswm o 450l ar gyfer carthbyllau. Byddai'n ddefnyddiol darparu canllawiau ar gysondeb safonau dylunio.

Mae Adran c Atodiad 2 yn cyfeirio at ystyried draenio dŵr wyneb i'r garthffos gyhoeddus. Gall hyn gynyddu cost y garthffos gyhoeddus ond nid yw'r canllawiau yn cyfeirio at asesiad cymesur o'r dewis preifat. Un ateb posibl fyddai cynnwys y gost o osod ffos gerrig ar gyfer dŵr wyneb i wasanaethu tŷ fel rhan o'r opsiwn carthffosiaeth breifat os yw'r garthffos gyhoeddus wedi'i chynllunio i allu derbyn dŵr wyneb.

7.0 Asesiad Economaidd - prisio manteision

Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r canllawiau'n rhoi arweiniad clir ar asesu costau a manteision.

Yng Nghymru, mae methodoleg asesu'r Cwmni'n cynnwys prawf economaidd sy'n pennu gwerth y manteision amgylcheddol ac amwynderol ac yn eu cymharu â chost

goresgyn effeithiau andwyol trwy ddarparu carthffosiaeth gyhoeddus neu breifat. Mae hyn yn awgrymu bod yna opsiwn i wneud dim, gan ganiatáu i effeithiau andwyol systemau preifat presennol ar yr amgylchedd ac amwynder barhau yn y tymor hir.

Wrth benderfynu ar anghydfod, cyn gynted ag y gwelir bod effaith andwyol ar yr amgylchedd neu amwynder o ganlyniad i elifiant domestig sy'n deillio o adeiladau mewn ardal, pwrpas adran 101A o safbwynt Cyfoeth Naturiol Cymru yw nodi'r ffordd fwyaf priodol i oresgyn yr effeithiau andwyol hynny.

Ein dehongliad o'r Canllawiau presennol yw y dylai costau a manteision pob opsiwn gael eu hystyried ar sail pennu'r ateb mwyaf cost effeithiol. Yr unig ffordd y dylid penderfynu bod yna ddyletswydd yw trwy wneud cymhariaeth feintiol ac ansoddol uniongyrchol o gostau a manteision darparu carthffos gyhoeddus gyda chostau a manteision dewisiadau amgen ymarferol o oresgyn effeithiau andwyol ar yr amgylchedd ac amwynder. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu bod dyletswydd ar yr Ymgymwrwr lle mae'r prawf economaidd hwn yn dangos mai'r ateb mwyaf cost effeithiol yw carthffos gyhoeddus.

Yn sgil methodoleg y Cwmni ar gyfer pennu gwerth ariannol buddion gwelwyd adolygiadau o asesiadau o dan adran 101A yn arwain at wrthdroi penderfyniad blaenorol i dderbyn dyletswydd. Efallai na fydd y canllawiau arfaethedig yn lleihau'r potensial ar gyfer cyfeirio anghydfodau at y Rheoleiddiwr am y rheswm hwn.

8.0 Cyfeirio anghydfodau

Gall yr amserlenni ar gyfer penderfynu, gan gynnwys apeliadau gan ymgeiswyr, beri problemau ac arwain at gyfnodau penderfynu maith a dyblygu adnoddau gan y sefydliadau dan sylw. Er enghraifft, rydym wedi bod yn ymdrin yn ddiweddar ag apêl a dderbyniwyd tua phum mlynedd ar ôl penderfyniad gwreiddiol y cwmni dŵr 'nad oedd dyletswydd'. Yn ystod y cyfnod hwnnw o bum mlynedd bu datblygiad ychwanegol a oedd felly'n gofyn am ailasesiad cyflawn o'r lleoliad a oedd yn golygu cost i DCWW, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru. Byddem felly'n awgrymu bod terfyn amser yn cael ei roi ar y cyfnod ar gyfer cyflwyno apêl.

Efallai y gellid ystyried ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr orfod talu ffi ymgeisio wrth gyflwyno eu ceisiadau cychwynnol a/neu ail geisiadau dilynol.

9.0 Amseru penderfyniadau mewn anghydfodau dyletswydd

Mae 6.2 yn awgrymu y gall ymgeisydd gyflwyno anghydfod ynghylch amseru a dyletswydd ar yr un pryd. Gallai hyn beri i'r ymgeisydd ddisgwyl rhywbeth nad yw'n bosibl ac arwain hefyd at ymestyn cyfnodau penderfynu. Byddai angen ceisiadau ychwanegol am wybodaeth wrth geisio dod i benderfyniad a gallai greu'r argraff bod dyletswydd wedi'i phenderfynu ymlaen llaw. O ystyried hynny, byddai'n well pe bai'r canllawiau'n pennu bod amseriad cynllun yn cael ei ddarparu gan yr ymgymwrwr o fewn 3 mis i benderfynu ar ddyletswydd.



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

10.0 Dyletswydd ymgeiswyr i warchod yr amgylchedd ac amwynder

Mae 6.3 yn cyfeirio at berchnogion systemau carthffosiaeth breifat yn cydymffurfio â Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010. Lle mae systemau preifat yn cydymffurfio â'r Rheoliadau, ni fydd modd iddynt, drwy ddiffiniad, fod yn gymwys ar gyfer cynllun adran 101A gan y byddant yn eiddo di-lygredd.

Trwy ddefnyddio geiriad gwahanol, gellid dweud ein bod yn disgwyl i berchnogion gymryd pob cam rhesymol i leihau effaith y system ar yr amgylchedd neu fel arall gall gorfodaeth fod yn angenrheidiol.

11.0 Rôl Ofwat

Mae Adran 7 yn esbonio bod Ofwat wedi'i awdurdodi i ymgymryd â'r rôl gorfodi, ond mae'r 3^{ydd} a'r 4^{ydd} paragraff yn awgrymu bod yna ail broses adolygu y tu hwnt i benderfyniad y Rheoleiddiwr mewn anghydfod. Rôl Ofwat yw cymeradwyo egwyddorion cyffredinol costio a blaenoriaethu ac ni fyddai'n edrych ar gynlluniau unigol yn fanwl fel rheol. Nid pennu a oes dyletswydd fydd eu rôl, ond yn hytrach gosod y sancsiynau angenrheidiol pan fydd y cwmni dŵr yn methu â chyflawni dyletswydd.

Mae angen eglurder ynghylch yr awdurdodaeth gorfodi a ddirprwyir i Ofwat. A yw hyn yn berthnasol i Severn Trent yng Nghymru? Mae angen i'r cwmnïau dŵr fod yn ymwybodol o'r gwahaniaethau yn y canllawiau'r naill ochr a'r llall i'r ffin.

Rydym yn gobeithio bod y sylwadau uchod yn hunanesboniadol ac o gymorth wrth gynhyrchu'r Canllawiau terfynol. Os oes angen rhagor o fanylion arnoch, cysylltwch â Christopher Hall ar 029 2046 6280 neu drwy e-bostio

Christopher.hall@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Cyfoeth Naturiol Cymru

Natural Resources Wales

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English